**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion
Gwledig Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Tachwedd 2020

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Hydref yn gofyn am ragor o wybodaeth am nifer o bwyntiau mewn perthynas â'r Fframwaith Sylweddau Peryglus Drafft. Mae'r wybodaeth ganlynol yn ymateb i'r cwestiynau a gyflwynwyd yn eich llythyr:

**<u>Datblygu'r fframwaith cyffredin</u>**

**1. A allwch egluro pam mae angen fframwaith yn y maes polisi hwn, yn eich barn chi?**

Prif ffocws y Cytundeb Fframwaith penodol hwn yw sicrhau bod y broses o ystyried pa sylweddau a symiau a fydd yn rhan o'r caniatâd sylweddau peryglus a'r cyfundrefnau cynllunio defnydd tir cysylltiedig ledled y DU yn seiliedig ar dystiolaeth a chyngor arbenigol priodol. Mae'r fframwaith arfaethedig yn nodi ffyrdd o gydweithio wrth ddatblygu polisi, gan barchu gallu gweinyddiaethau i ddilyn agendâu polisi gwahanol.

Mae posibilrwydd damcaniaethol o ‘ras i'r gwaelod’ niweidiol yn achos safonau ar gyfer rheolaethau sylweddau peryglus. Fel yr esboniwyd yn y fframwaith amlinellol, mae'r risg y bydd hyn yn digwydd yn fach, ond bydd bodolaeth fframwaith cydweithio ar bolisi yn helpu i osgoi senario o'r fath neu, o leiaf, leihau effeithiau newid. Mae gan y diwydiant lawer o fusnesau sy'n gweithredu ledled y DU ac, felly, mantais wirioneddol fframwaith yn y maes polisi hwn yw y bydd yn helpu prosesau datblygu polisi i ddysgu o'r pwysau gwahanol sydd ar fusnesau ym mhob un o'r gweinyddiaethau a darparu ar gyfer y pwysau hynny. Er bod gan yr agweddau amgylcheddol ar y maes polisi gyrff cynghori ar wahân, mae'r cyngor a'r arbenigedd ym maes iechyd a diogelwch yn dibynnu ar ffynhonnell gyffredin ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban, sef yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae cydweithredu i ddatblygu polisi yn ei gwneud yn bosibl i gost casglu a defnyddio tystiolaeth gyffredin gael ei lleihau ar gyfer pob gweinyddiaeth ac yn hyrwyddo defnydd cydgysylltiedig o adnoddau HSE, sydd o fudd i'w heffeithlonrwydd gweithredol.

Nod trefniadau'r fframwaith yw sicrhau bod y cydweithrediad sydd wedi bodoli rhwng swyddogion dros y ddau ddegawd diwethaf yn parhau wrth iddynt fwrw ymlaen â'r gwaith o

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

drosi gwahanol Gyfarwyddebau Seveso. Mae'r nodau cyffredin a nodir yn y Cyfarwyddebau wedi'u rhoi ar waith gan ddefnyddio'r gwahanol reolaethau cynllunio a rheolaethau sylweddau peryglus ym mhob gweinyddiaeth, gyda'r swyddogion cysylltiedig yn cydweithredu â'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth ac yn cynnig cymorth cyffredinol.

**2. A allwch ymhelaethu ar y rheswm pam y dewisodd gweinyddiaethau'r DU fwrw ymlaen â fframwaith anneddfwriaethol?**

Gall y maes hwn ddarparu ar gyfer gwahanol ddulliau gweithredu gan y gweinyddiaethau ac mae'n gwneud hynny. Byddai mabwysiadu dull deddfwriaethol yn ddiangen ac yn anhyblyg. Mae fframwaith anneddfwriaethol yn rhoi hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer gwahanol ddulliau gweithredu ond mae'n darparu'r sail ar gyfer rheoli a chynnal cydweithrediad ym maes datblygu polisi a allai gael ei golli fel arall am fod y maes yn amrywio wrth i weinyddiaethau newid eu blaenoriaethau polisi.

**3. A allwch amlinellu sut rydych wedi cynnwys rhanddeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys diwydiant, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru yn y gwaith o ddatblygu'r fframwaith?**

O gofio mai prin fydd canlyniadau'r cynigion ar gyfer y fframwaith, yn yr un modd prin fu'r ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cynhwyswyd rhanddeiliaid allweddol mewn digwyddiad bord gron ar 19 Mawrth 2019, a gynhaliwyd ar y cyd â gweinyddiaethau eraill. Defnyddiwyd y digwyddiad hwn i gadarnhau a oedd dull deddfwriaethol yn briodol. Ymhlith y rhanddeiliaid sy'n berthnasol i Gymru roedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Cymdeithas y Diwydiannau Cemegol, Cymdeithas Tanciau Storio, Cymdeithas Diwydiant Petrolewm y DU a Chymdeithas y Busnesau Cemegol.

Gwnaethom anfon dogfen y fframwaith amlinellol i randdeiliaid yng Nghymru ddechau mis Hydref, gan gynnwys pob awdurdod sylweddau peryglus ac awdurdod tân ac achub. Anogwyd rhanddeiliaid i gysylltu â'm swyddogion os oedd ganddynt bryderon ynghylch y fframwaith. Ni chafwyd unrhyw sylwadau hyd yma.

**4. A allwch amlinellu'r materion allweddol a godwyd gan randdeiliaid yng Nghymru a'r ffordd y mae'r materion hyn wedi cael eu hadlewyrchu yn y fframwaith?**

Ar y cyfan, roedd y diwydiant am weld cysondeb yn y gyfundrefn reoleiddiol (a oedd yn cael ei gwerthfawrogi ynddi'i hun) ac, felly, ni hoffai weld y gweinyddiaethau yn mabwysiadu polisïau gwahanol. Fodd bynnag, mae parhau i gynnig cyfle i fabwysiadu polisïau gwahanol yn rhoi mwy o lais i bobl yng Nghymru o ran y ffordd y caiff polisi ar gynllunio defnydd tir ar gyfer peryglon damweiniau mawr ei ddatblygu yn y dyfodol ac yn rhoi hyblygrwydd i brosesau cynllunio ar gyfer sylweddau peryglus addasu i newidiadau ehangach yng nghyfundrefnau cynllunio a diogelu'r amgylchedd Cymru.

**<u>Rhyngweithio â chyfraith ddomestig a rhyngwladol a chytundebau rhyngwladol</u>**

**5. A allwch egluro a yw'r fframwaith yn rhyngweithio â deddfwriaeth ddomestig bresennol, ac eithrio'r ddeddfwriaeth sydd eisoes wedi'i rhestru yn Adran 1 o'r Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft ac, os felly, sut?**

Mae'r ddeddfwriaeth a nodir yn y Cytundeb Amlinellol Fframwaith yn darparu'r fframwaith ar gyfer y system o ganiatâd sylweddau peryglus sydd ei hangen i storio cemegion sy'n beryglon damweiniau mawr, a weinyddir gan awdurdodau sylweddau peryglus, yn amodol ar gyngor a roddir yn bennaf gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth a restrir yma hefyd yn sail i ymgynghoriad gorfodol yr

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â chynigion datblygu sy'n ymwneud ag adeiladau sy'n storio sylweddau peryglus.

Mae a wnelo cynllunio ar gyfer sylweddau peryglus â lleihau effaith damwain fawr drwy gadw datblygiadau sensitif i ffwrdd oddi wrth adeiladau sy'n storio sylweddau peryglus. Y ddeddfwriaeth sy'n ceisio atal y damweiniau yn y lle cyntaf yw Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015 ("Rheoliadau COMAH"). Yr awdurdod cymwys at ddibenion y rheoliadau hyn yng Nghymru yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Cyfoeth Naturiol Cymru gan weithredu ar y cyd. Nid yw'n ddarostyngedig i gytundeb fframwaith.

Ymhlith y ddeddfwriaeth nas rhestrwyd mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) 2005 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r broses o baratoi cynlluniau datblygu lleol ystyried y nodau o atal damweiniau mawr a chyfyngu ar ganlyniadau damweiniau o'r fath o ran iechyd pobl a'r amgylchedd.

**6. Mae'r DU wedi llofnodi dau gytundeb rhyngwladol sy'n berthnasol i'r gyfundrefn sylweddau peryglus, sef: Confensiwn Aarhus a Chonfensiwn Effeithiau Trawsffiniol Damweiniau Diwydiannol. A allwch ymhelaethu ar y ffordd y bydd y fframwaith yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Confensiynau hyn?**

Mae cynllunio ar gyfer sylweddau peryglus yn bwnc arbenigol iawn y mae nifer cyfyngedig o staff yn gysylltiedig ag ef. Felly, bydd y fframwaith yn hwyluso rhannu arferion gorau rhwng y gweinyddiaethau ac yn cynnig cyfleoedd i gymheiriaid adolygu'r ffordd y mae'r confensiynau rhyngwladol yn cael eu rhoi ar waith ynddynt.

**7. A allwch egluro a fydd y negodiadau parhaus rhwng yr UE a'r DU ynghylch y Gydberthynas Rhyngddynt yn y Dyfodol yn effeithio ar y fframwaith ac, os felly, sut y bydd yn effeithio arno?**

Drwy drafodaethau, nid ydym wedi nodi unrhyw wahaniaethau rhwng y gweinyddiaethau o ran sylweddau peryglus a fyddai'n effeithio ar allu'r DU i negodi (ac ati) gytundebau a chytuniadau masnach. Sut bynnag, byddai angen i'r broses o negodi unrhyw gytundebau neu gytuniadau masnach newydd ystyried ble mae cymhwysedd datganoledig yn golygu bod gwahaniaethau rhwng gwahanol wledydd y DU, neu y gallai fod gwahaniaethau rhyngddynt, o ran materion sy'n berthnasol i'r cytuniad neu'r cytundeb penodol hwnnw. Gallai'r telerau y bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd oddi tanynt, ac unrhyw drefniadau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, gynnwys ymrwymiadau penodol y gallai fod iddynt oblygiadau i'r gyfundrefn sylweddau peryglus (e.e. o ran safonau amgylcheddol). Yn y senario hwn, bydd y gweinyddiaethau yn llai abl i fabwysiadu polisïau gwahanol, er yr ystyrir y bydd y ffyrdd arfer gorau o weithio fel y'u nodir yn y fframwaith hwn yn dal i ddarparu sail gadarnhaol ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ati ac, felly, ni fydd y fframwaith yn newid.

**8. A allwch egluro a fydd Bil Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU yn effeithio ar y fframwaith ac, os felly, sut y bydd yn effeithio arno?**

Gweler yr ateb i 7 uchod.

**<u>Y broses graffu ac amserlenni</u>**

**9. A allwch gadarnhau y bydd y fframwaith yn cynnwys y Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro, y Concordat a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddaru ac y cyfeirir atynt yn y Cytundeb Amlinellol Fframwaith drafft?**

Mae a wnelo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeirir ato yn y Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro â Rheoliadau COMAH nad ydynt yn rhan o'r fframwaith hwn. Rydym wrthi'n trafod â'r gweinyddiaethau eraill pa ddogfennau yn union y bydd y fframwaith llawn yn eu cynnwys. Rydym yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r pwyllgor ar ôl iddo gael ei gadarnhau.

**10. A allwch egluro a fydd y Concordat a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddaru ar gael i'r Senedd graffu arnynt?**

Rydym yn trafod hyn â'r gweinyddiaethau eraill er mwyn sicrhau bod gennym ddull cyson o ymdrin â gwaith craffu pellach gan y Senedd. Rydym yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r pwyllgor ar ôl iddo gael ei gadarnhau.

**11. A allwch egluro'r amserlen ar gyfer gwaith craffu'r Senedd ar y Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro a'r dogfennau cysylltiedig?**

Rydym yn trafod hyn â'r gweinyddiaethau eraill er mwyn sicrhau bod gennym ddull cyson o ymdrin â gwaith craffu pellach gan y Senedd. Rydym yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r pwyllgor ar ôl iddo gael ei gadarnhau.

**Monitro ac adolygu'r trefniadau ar gyfer y fframwaith**

**12. A allwch esbonio pam mae gweinyddiaethau'r DU wedi dewis peidio â sefydlu system fwy ffurfiol ar gyfer monitro'r ffordd y caiff y fframwaith hwn ei roi ar waith?**

Ar ôl adolygiad cychwynnol, penderfynir ar drefniant mwy parhaol ar gyfer cyfarfodydd mynych i drafod y fframwaith hwn yn seiliedig ar amserlen a ystyrir yn briodol. Gwnaed y penderfyniad i beidio â gosod rhaglen fonitro fwy ffurfiol ar yr adeg hon drwy gytundeb rhwng y pedair gweinyddiaeth ac mae'n seiliedig ar bwysigrwydd cymharol y maes ac awydd i beidio â gorlwytho'r trefniadau gweithio syml a fu'n llwyddiannus hyd yma. Y safbwynt yw bod angen i unrhyw broses fonitro ac adolygu fod yn gymesur â'r maes polisi.

**13. A allwch egluro a gaiff adroddiad ar y cyfarfod adolygu rhwng gweinyddiaethau'r DU ei gyhoeddi?**

Rydym wrthi'n penderfynu'n derfynol ar fanylion proses y cyfarfodydd adolygu â'r gweinyddiaethau eraill a byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor unwaith y deuir i gytundeb.

**14. A allwch esbonio o dan ba amgylchiadau na fyddai'n briodol cynnwys rhanddeiliaid yn y broses adolygu ar gyfer y fframwaith?**

Rydym wrthi'n penderfynu'n derfynol ar fanylion proses y cyfarfodydd adolygu â'r gweinyddiaethau eraill a byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor unwaith y deuir i gytundeb.

**15. A allwch gadarnhau a all y Senedd gyfrannu at y broses adolygu ar gyfer y fframwaith ac, os felly, sut y bydd yn cyfrannu ati?**

Rydym wrthi'n penderfynu'n derfynol ar fanylion proses y cyfarfodydd adolygu â'r gweinyddiaethau eraill a byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor unwaith y deuir i gytundeb.

**Cefndir y fframwaith cyffredin**

**16. A allwch amlinellu 'gofynion sylfaenol' Cyfarwyddeb Seveso III mewn perthynas â chynllunio ar gyfer sylweddau peryglus, sy'n gyffredin ledled y DU?**

Yn fras iawn, mae gofynion sylfaenol Cyfarwyddeb Seveso III sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir, fel a ganlyn:

a) dylai caniatâd gael ei roi gan awdurdod cymwys cyn i sylweddau, dros y swm a nodir yn y Gyfarwyddeb, allu cael eu storio mewn adeilad;

b) dylai'r broses o lunio polisïau cynllunio ystyried nodau ac amcanion y Gyfarwyddeb i atal damweiniau mawr a chyfyngu ar ganlyniadau damweiniau o'r fath o ran iechyd pobl a'r amgylchedd drwy gynnal pellteroedd diogelwch priodol;

c) dylai'r awdurdod cymwys ystyried unrhyw faterion sy'n ymwneud â pheryglon damweiniau mawr cyn iddo roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau gerllaw adeiladau, ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad gerllaw adeiladau o'r fath a chaniatâd sylweddau peryglus.

d) dylai awdurdodau sylweddau peryglus ac awdurdodau cynllunio lleol ddarparu gwybodaeth ac ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y gweithgareddau uchod.

**17. A allwch roi manylion pellach am y potensial i fabwysiadu polisïau gwahanol o dan y gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus bresennol?**

Mae lle i fabwysiadu polisïau gwahanol o ran y sylweddau a'u symiau sy'n cael eu rheoli gan y gyfundrefn  Mae lle hefyd i fabwysiadu gweithdrefnau ac amserlenni gwahanol mewn perthynas â rhoi caniatâd sylweddau peryglus a pholisïau gwahanol o ran y ffordd y mae'r gwahanol systemau cynllunio yn rhyngweithio â'r nod o gynnal pellteroedd diogelwch oddi wrth adeiladau.

**Y gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus ar ôl i'r DU ymadael â'r UE**

**18. A allwch egluro a gedwir unrhyw rai o'r 'cyfyngiadau allweddol' presennol ar lefel y DU gyfan ar ôl i'r DU ymadael â'r UE? Sut y caiff hyn ei adlewyrchu yn y fframwaith?**

Nid oes unrhyw gytundeb gwleidyddol ffurfiol i gadw'r un diffiniadau ledled y DU ond cydnabyddir, am fod gweithgarwch cynllunio ar gyfer sylweddau peryglus yn mynd rhagddo yn y DU cyn i Gyfarwyddeb Seveso gael ei chyflwyno am resymau da yn ymwneud â diogelwch a'r amgylchedd, nad oes fawr ddim awydd i newid y sefyllfa bresennol.  Mae'r system bresennol yn seiliedig ar dystiolaeth sylweddol a dibynadwy gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n golygu bod rheolaethau presennol y DU ar gyfer rhai sylweddau yn fwy trylwyr na'r rhai yn y gyfarwyddeb ac nid oes fawr ddim pwysau o du rhanddeiliaid i ddiwygio'r system. Mae'r Fframwaith yn ymdrin â'r ffaith nad oes cytundeb ffurfiol drwy ei gwneud yn ofynnol i weinyddiaethau dynnu sylw awdurdodaethau eraill at unrhyw gynlluniau y maent yn bwriadu eu gwneud fel y gellir cynllunio ar gyfer unrhyw oblygiadau ar draws gweinyddiaethau ymlaen llaw.

**19. Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i gadw gofynion sylfaenol cyffredin, gan gynnwys, er enghraifft, safonau gofynnol o ran yr hyn sy'n gyfystyr â sylwedd peryglus?**

Mae'r trafodaethau hyd yma wedi parchu'r ffaith bod y materion yn rhai datganoledig ac y gellir pennu sylweddau a symiau gwahanol. Fodd bynnag, mae'r trafodaethau hefyd wedi

cydnabod bod gwahaniaethau yn annhebygol o godi am fod y safonau gofynnol yn bodoli am resymau diogelwch yn seiliedig ar sail dystiolaeth gyffredin a arweinir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a rheoleiddwyr diogelwch eraill.

**20. Beth yw'r risgiau a'r cyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â chadw gofynion sylfaenol cyffredin ac ehangu'r cyfle i fabwysiadu polisïau gwahanol?**

Y prif risgiau fyddai dryswch cyffredinol ym mhob rhan o'r diwydiant ynghylch pa ganiatâd sydd ei angen a'r posibilrwydd y byddai poblogaeth y DU yn cael ei hamlygu i fwy o risg o ddamweiniau mawr. Fodd bynnag, mae'n rhaid cofio bod y system bresennol wedi'i llunio er mwyn galluogi ardaloedd gwahanol i benderfynu drostynt eu hunain, drwy eu hawdurdod sylweddau peryglus, pa lefel o risg y maent yn barod i'w derbyn wrth gynllunio ar gyfer adeiladau newydd ac ar gyfer datblygu o'u hamgylch.

**21. I ba raddau rydych yn fodlon na fydd y dull gweithredu a ddewiswyd yn y maes polisi hwn, h.y. fframwaith anneddfwriaethol, yn gostwng safonau na'r lefelau o ddiogelwch a roddir i iechyd pobl a'r amgylchedd?**

Roedd gan y DU ddiwylliant iechyd a diogelwch cryf eisoes, hyd yn oed cyn i reolaethau gael eu safoni gan yr UE drwy Gyfarwyddeb Seveso. Credaf fod awydd gwleidyddol a phroffesiynol gwirioneddol i gynnal safonau uchel.

**22. I ba raddau y mae'r fframwaith yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau na fydd safonau amgylcheddol yn gostwng?**

Mae'r fframwaith yn cyd-fynd â'r ymrwymiad i sicrhau na fydd safonau amgylcheddol yn gostwng. Nid oes unrhyw awydd i newid nac, yn ddiau, ostwng safonau, yn y maes oherwydd y diwylliant diogelwch yn y sector. Datblygwyd saernïaeth y Fframwaith i fod yn gymesur â'r maes polisi ac, yn ddiau, nid yw'n tanseilio'r ymrwymiad i sicrhau na fydd safonau amgylcheddol yn gostwng.

**<u>Cynigion ar gyfer newidiadau i'r gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus yn y dyfodol</u>**

**23. A allwch egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith ar gynigion ar gyfer diwygio'r gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus ers yr ymgynghoriad uchod?**

Prin yw'r sylweddau peryglus a wneir yng Nghymru, felly nid oes gan swyddogion mewn awdurdodau sylweddau peryglus fawr ddim profiad o ymdrin â cheisiadau. Ysgogodd hyn gwestiwn gan ymatebydd i'n hymgynghoriad diwethaf ynghylch newidiadau i reoliadau a ofynnodd ai awdurdodau oedd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r swyddogaeth. Er ein bod yn cydnabod bod prinder staff â sgiliau a phrofiad, nid yw adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd y mae'r system yn gweithio yn rhywbeth y mae diwydiant na rheoleiddwyr yn gofyn amdano yn eang ar hyn o bryd. Felly, nid ydym wedi bwrw ymlaen â gwaith ar adolygiad ers i'r rheoliadau gael eu disodli yn 2015.

**24. A allwch egluro a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd neu ar gyfer y dyfodol i adolygu'r gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus?**

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r gyfundrefn cynllunio sylweddau peryglus ond am y rhesymau a nodwyd yn yr ateb i gwestiwn 23, mae'n fater a gaiff ei ystyried yn y dyfodol.

**25. O dan ba amgylchiadau y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion i leihau rheolaethau islaw'r gofynion sylfaenol presennol, er enghraifft, ynghylch lefel y sylweddau y gellir eu dal, neu mewn perthynas â'r broses o roi caniatâd ?**

Yr unig amgylchiadau lle y byddai Llywodraeth Cymru yn lleihau rheolaethau islaw'r gofynion sylfaenol fyddai petai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn ein hysbysu bod y rheolaethau presennol yn ormodol a phe gallai hyn gael ei ategu gan dystiolaeth wyddonol.

**26. A allwch egluro a fyddai newidiadau i'r gofynion sylfaenol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd?**

Byddent, byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gofynion sylfaenol yn gofyn am newid y ddeddfwriaeth ac, felly, byddai angen yr ymrwymiad i ymgynghori â'r cyhoedd a sicrhau bod y Senedd yn craffu ar y ddeddfwriaeth.

**27. I ba raddau rydych yn fodlon bod digon o arbenigedd technegol yng Nghymru neu ar lefel y DU i gymryd lle'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd ar lefel yr UE yn y maes polisi hwn?**

Mae'r arbenigedd a ddefnyddir i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi yn genedlaethol ac ar lefel Ewropeaidd bob amser wedi bodoli o fewn aelod-wladwriaethau ac, felly, mae cyngor parhaus yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddigonol ac i'w groesawu yn y dyfodol.

**28. Os na fydd gofynion newydd na diwygiedig gan yr UE mewn perthynas â chynllunio ar gyfer sylweddau peryglus yn gymwys i'r DU, pa drefniadau a roddir ar waith i adolygu gofynion domestig, gan ystyried datblygiadau mewn gwledydd eraill?**

Ni chynigir unrhyw system adolygu ffurfiol y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y Fframwaith. Bydd bodolaeth y Fframwaith yn hwyluso adolygiadau o arferion gorau a gwersi a ddysgwyd o ddatblygiadau yng ngwledydd gweinyddiaethau eraill, y gellir eu defnyddio i nodi pryd y dylid cynnal adolygiad o'r prosesa sylweddau peryglus yng Nghymru.

Gobeithio y bydd yr ymatebion uchod yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i chi er mwyn helpu i graffu ar y Fframwaith Drafft. Gallaf eich sicrhau, pan fyddwn wedi dod i benderfyniad ar y cyd â'r gweinyddiaethau eraill ynghylch y broses o adolygu'r fframwaith a fformat terfynol y Fframwaith, y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Cc: Cwnsler Cyffredinol